**WHC/2021/012**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 22 Ebrill 2021

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: Y GWEITHLU**

Teitl: Gweithredu'r dull y cytunwyd arno ar gyfer atal Trais ac Ymddygiad Ymosodol tuag at staff y GIG yng Nghymru.

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**

Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Gweithredu Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd

Cyfarwyddwyr Y Gweithlu

**Angen gweithredu erbyn:** Yn syth

**Anfonir gan:** Andrew Goodall, Prif Weithredwr, GIG Cymru.

**Cyswllt y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:**

Blwch Negeseuon E-bost Gweithlu a Busnes Corfforaethol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: HSSWorkforceOD@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

At holl Brif Weithredwyr
Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru

C.C. Y Prif Swyddog Meddygol, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyfarwyddwyr Meddygol

**Mae'r ddogfen "Ymatebion Gorfodol i Drais Mewn Gofal Iechyd" wedi'i diweddaru ar gael yn llawn yn yr ail Atodlen.**

## Cyflwyniad

Yng nghyd-destun ymrwymiad *Cymru Iachach* i'r GIG ddod yn gyflogwr enghreifftiol o ran iechyd a lles ei weithlu, mae holl sefydliadau'r GIG wedi cytuno ar y dull o atal trais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff y GIG yng Nghymru. Mae dyfodiad pandemig COVID-19 hefyd yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau'r GIG mewn amrywiaeth o ffyrdd, a rhagwelir bod hynny'n cynyddu'r risg o achosi trais i weithwyr y GIG.

Mae'r gwaith hwn yn bwysig i ysgogi newid ymarferol a diwylliannol er mwyn sicrhau:

- bod y cyhoedd, y staff a'r cleifion yn ymwybodol pa mor ddifrifol y mae'r GIG yng Nghymru yn cymryd achosion o drais ac ymddygiad ymosodol tuag at ei staff a bod gan y GIG gyfrifoldeb cyntaf i sbarduno'r fenter;
- y gall holl aelodau o staff y GIG yng Nghymru fod yn hyderus ein bod yn ymdrechu ar y cyd i'w diogelu rhag trais ac ymddygiad ymosodol tra byddant yn y gwaith;
- os yw aelodau o staff yn rhan o unrhyw ddigwyddiad o'r fath, y gellir rhoi sicrwydd iddynt fod polisïau a gweithdrefnau clir ar waith. Bydd y rhain yn cael eu dilyn yn gadarn ac yn effeithiol i'w cefnogi drwy'r broses a bydd camau priodol yn cael eu cymryd yn erbyn y tramgwyddwyr.

Mae sefydliadau'r GIG yn ymrwymo i goladu, adolygu a dadansoddi'r corff o adroddiadau ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn staff er mwyn atal trais rhag digwydd yn y lle cyntaf a diwygio mesurau rheoli risg drwy ddysgu o ddigwyddiadau.

Diben y cylchlythyr hwn yw nodi cynlluniau ac amserlen i ymgorffori'n llawn y gofynion ar gyfer gweithredu ac adrodd ar ddigwyddiadau treisgar fel y'u nodir yn *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd* Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG ym mhob un o sefydliadau'r GIG. Mae'n cydnabod ac yn parchu'r ymrwymiad i'r fenter a wnaed gan yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac asiantaethau Partner drwy ddyrchafu ei statws.

## Trefniadau Newydd

Yn 2017, ffurfiwyd Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG, a rhwng mis Mehefin 2017 a mis Tachwedd 2018 cydweithiodd y Grŵp â sefydliadau'r GIG yng Nghymru a chyda phartneriaid eraill i benderfynu ar yr effaith a'r ymateb gan gynnwys atal ymosodiadau ar weithwyr y GIG. Arweiniodd y gwaith hwn at lansio dogfen o'r enw *Ymatebion Gorfodol i*

*Drais mewn Gofal Iechyd* a lofnodwyd ar 21 Tachwedd 2018 gan y GIG, 4 gwasanaeth yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru.

Mae'r ddogfen wedi cael derbyniad da yn gyffredinol ac wedi cyflawni'r nodau canlynol:

- ailsefydlu'r berthynas rhwng y GIG, yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru;
- ymestyn cwmpas y cytundeb presennol i gynnwys gofal sylfaenol, fferylliaeth gymunedol a gwasanaethau podiatreg yng Nghymru;
- ailddatgan ymrwymiad sefydliadau GIG Cymru i leihau ac atal trais mewn gofal iechyd;
- rhoi dioddefwyr troseddau treisgar yn y GIG ar "flaen ac yng nghanol" y cytundeb;
- ymdrin â'r defnydd o 'capasiti' fel term procsi ar gyfer y bwriad o gyflawni trosedd;
- egluro rôl rheolwyr achos wrth weithredu'r cytundeb.

At hynny, mae'r ddogfen yn nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn rhagweithiol bob amser ond yn enwedig ar adegau o argyfwng megis yn ystod pandemig, h.y. COVID-19, pan fo modd rhag-weld y gall y pwysau ar wasanaethau gynyddu'r ffactorau risg sy'n arwain at ymosodiadau ar staff.

Cafodd y cytundeb newydd dderbyniad da iawn a'i ddarparu fel dogfen drosglwyddadwy gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Yn ogystal, darparwyd amrywiaeth newydd a chynhwysfawr o bosteri er mwyn eu dosbarthu a chodi ymwybyddiaeth.

**Ymgorffori'r newidiadau**

Yn dilyn lansio ac ymgorffori'r newidiadau, mae angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r protocol, meithrin gallu ledled Cymru, rhannu arferion effeithiol wrth weithredu a sicrhau bod y dull gweithredu'n gyson ledled Cymru drwy waith monitro gwell.

Mae'r atodlen ganlynol yn nodi'r camau gweithredu a'r amserlen allweddol i bob un o sefydliadau'r GIG ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd.*

**Yr Atodlen Gyntaf**

Bydd angen i bob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru ffurfioli'r dull gweithredu ar draws pob safle drwy:

1. nodi cyfrifoldeb am wrth-drais ac ymddygiad ymosodol ar lefel Bwrdd ym mhob sefydliad;

2. sicrhau bod sefydliadau'n neilltuo adnoddau priodol i rôl y Rheolwr Achos hanfodol i'w galluogi i chwarae rôl ragweithiol, gan gynnwys:

- Cefnogi ac arwain dioddefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol a'u cyfeirio at y cymorth llesiant sydd ar gael yn y GIG.
- Darparu adroddiadau misol i'r Adran Iechyd a Diogelwch a'r cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn eu sefydliad eu hunain.
- Darparu adroddiad cyfanredol chwe misol i'r Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais mewn fformat safonol i'w galluogi i nodi materion a chynnydd ar lefel Cymru gyfan gyda chyfarfodydd cyfnodol gyda'r Grŵp.
- Darparu adroddiad blynyddol sy'n dilyn yr adroddiad enghreifftiol a nodir yn Atodiad M cytundeb yr *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd*, i'w fwrdd ar gyfer ei lofnodi'n ffurfiol. Bydd yr adroddiad hwnnw yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais erbyn 31 Chwefror 2022.
- Bydd y Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais yn darparu adolygiad blynyddol o weithrediad yr *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd* o'r adroddiadau a ddaeth i law gan ei aelodaeth ehangach a sefydliadau'r GIG yn gyffredinol a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad cyntaf o'r fath yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Ebrill 2022.
- Argymhellir y dylai pob un o sefydliadau'r GIG ailddatgan ei ymrwymiad i'r *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd* drwy sicrhau bod y Prif Weithredwr neu'r Cadeirydd yn ail-lofnodi'r cytundeb fel rhan o ymgyrch gyhoeddus i'w lansio ym mis Mehefin/Gorffennaf 2020 i hyrwyddo'r cytundeb.
- Bydd y Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais ar y cyd â'i bartneriaid yn darparu canllawiau a hyfforddiant ar weithredu'r *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd*.

Yr Ail Atodlen

Mae'r ddogfen *Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd* ar gael yma – Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd